

BWRDD CYD LYWODRAETHU

22 Mehefin 2022 am 10:00
AR-LEIN

PRESENNOL:

Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (Cadeirydd) [KJ]
Rachel Barber, Cadeirydd, Cydbwyllgor Archwilio [RB]
James Sutton, Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd [JS]
Guto Edwards, Pennaeth Cyllid [GE]
Stephen Hughes, Prif Weithredwr [SH]
Sian Wyn Jones, Cydlynnydd Parhad Risg a Busnes [SWJ]
Phil Kenyon, Gwasanaethau Cyfreithiol [PK]
Sophie Rousseau [SR] (cofnodion)
Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau [SP]
James Sutton, Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd [JS]
Helen Williams, Cyfrifydd Rheoli Ariannol [HW]
Helen Cargill, TIAA [HC]

YMDDIHEURIADAU:

Anne Matthews, Swyddog Cyllid a Chyllidebau
TIAA Sarah Davies, Arweinydd JAC ar Foeseg a Llywodraethu [SD]
Sian Beck, Dirprwy Brif Arolygydd Dros Dro

300. COFNODION

Gwnaeth y bwrdd adolygu a chymeradwyo cywirdeb y cofnodion blaenorol.

301. GWEITHREDIADAU

Gweler y cofnod gweithrediadau am ddiweddariadau.

302. ADOLYGIAD EFFEITHLONRWYDD AC EFFEITHIOLRWYDD LLYWODRAETHU (BLYNYDDOL)

Amygodd SWJ ein bod mewn sefyllfa dda gydag adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn. Bellach mae mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y llywodraethu o amgylch yr heddlu sy'n profi ein bod yn symud yn y cyfeiriad cywir. Mae llawer o drafodaethau ynghylch trafodaethau mynych mewn cyfarfodydd. Dyma lle bydd y templed corfforaethol o bosib yn cynorthwyo gyda'r broblem a gwneud adroddiadau'n gliriach ynghylch yr hyn ydy'r diben gwirioneddol. Gwnaeth SWJ hefyd grybwyll bod trafodaethau blaenorol yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau er mwyn osgoi trafodaeth fynych ar waith sydd eisoes wedi'i chwblhau.

Diwygiadau i'r strwythur llywodraethu, ychwanegu ychydig o gyfarfodydd a digomisiynu un cyfarfod.

Rhai argymhellion i'r Bwrdd Cyd-lywodraethu i'w cymeradwyo:

- Cymryd sicrwydd o'r adroddiad
- Gofyn i'r heddlu ystyried ategu wrth y cadeiryddion a'r ysgrifenyddion am bwysigrwydd glynu at y cylch gorchwyl – sicrhau bod cyfarfodydd yn parhau'n eglur ac yn cyflawni amcanion
- Amseru cyfarfodydd cenedlaethol/rhanbarthol.
- Ystyried ategu'r defnydd o dempledi corfforaethol – lleihau dyblygu / ailadrodd gwaith
- Disgrifio adroddiadau prif bwytiau fwy o ran cynnwys mwy o fanylion ynghylch trafodaethau blaenorol
- Cymeradwyo strwythur llywodraethu arfaethedig sydd a'r diwygiadau sydd wedi'u hamlygu yn yr adroddiad – [awgrymodd SP i fynd â'r strwythur at fforwm ehangach fel SLT]

Holodd RB a fydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu gyda phawb sydd wedi cyfrannu er mwyn iddynt weld yr allbwn a lle mae wedi mynd a'r ymateb mae wedi'i gael. Er enghraifft: yr hyn mae SLT yn ei ddweud amdano gan fod hyn yn parhau i ddangos y pwysigrwydd. SWJ yn cytuno a sicrhodd y bydd pawb a gyfrannodd yn derbyn adborth.

SH yn holi SWJ – Pan gomisiynir cyfarfodydd newydd, a yw'n cael ei ddogfennu yn rhywle gan ei fod yn rhoi eglurder i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu? Eglurodd SJ pan gomisiynir/digomisiynir cyfarfod, dylai adroddiad gael ei gyflwyno i SLT yn ceisio cymeradwyaeth. Unwaith y caiff ei gymeradwyo, dylid hysbysu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu er mwyn amlygu fod cyfarfod wedi'i gytuno/ddisodli.

303. CYTUNO AR DDATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Amlygodd SP un o'r elfennau sydd ddim i'w weld yn y Datganiad ar hyn o bryd – hefyd gweithrediad i'w godi ydy'r cynllun gweithredu ynghylch llywodraethu sy'n gysylltiedig gyda'r Datganiad ar gyfer y flwyddyn bresennol. Mae ychydig o elfennau. Gall ystyried canfyddiadau'r adolygiad llywodraethu a'u gweithrediad o'r flwyddyn i ddod fod o fewn y cynllun gweithredu a sut rydym yn edrych ar symud rhai o'r problemau hynny ymlaen dros y flwyddyn nesaf. Awgrymodd SP i adolygiad llywodraethu ffurfiol arall gael ei wneud ac iddo gael ei gynnwys yng nghynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae Datganiad drafft ar hyn o bryd sy'n adlewyrchu trafodaethau yn y Bwrdd ddechrau mis Mawrth. Mae ymgais wedi bod i ymgorffori'r sylwadau a thrafodaethau hynny i'r fersiwn a gylchredwyd ar gyfer cyfarfod heddiw. Er, gan ei bod yn broblem rwan, mae SP yn meddwl ei fod yn faes posibl a ellir ei ehangu o fewn y Datganiad yn dilyn yr adolygiad llywodraethu. Mae angen cynllun llywodraethu ar gyfer y flwyddyn o hyd; Rhannodd SP rai syniadau ar hyn:

- Gall ystyried canfyddiadau'r adolygiad effeithlonrwydd llywodraethu a'u goblygiadau dros y flwyddyn nesaf
- Ymgymryd ag adolygiad llywodraethu ffurfiol arall dros y flwyddyn nesaf
- Ystyried priodoldeb fformat y Datganiad ac ystyried unrhyw welliannau posibl ar gyfer datganiad llywodraethu blwyddyn ariannol 22/23 (Wedi'i gymhell gan drafodaethau yn y fforwm hwn o fis Mawrth)
- Ystyried goblygiadau llywodraethu'r adolygiad PEEL HMICFRS sydd ar waith ar hyn o bryd

Atgoffodd RB bod y Datganiad i gael ei gyhoeddi yn hwyrach eleni ddechrau'r hydref. Felly, gall fod yn ddyhead o'r hyn wnaethom gydag un o'r eitemau o'r blaen, sef ei fod yn diflannu o'r cynllun gweithredu gan ei fod wedi'i wneud eisoes.

304. ADOLYGIAD O ARGYMHELLION ARCHWILIAD MEWNOL

305. ADOLYGIAD O GYHOEDDIADAU A GYHOEDDWDYD GAN ARCHWILIAD MEWNOL

306. SICRWYDD CYFYNGEDIG ASEDAU SEFYDLOG TGCh – DIWEDDARIAD O RAN ARGYMHELLION

(Trafodwyd y tair eitem agenda a'u cysylltu gyda'i gilydd)

Mae 3 archwiliad wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf – archwiliad cydweithredol ar ddyledwyr a all gefnogi sicrwydd sylweddol. Cawsom archwiliad asedau sefydlog a oedd yn canolbwyntio ar TGCh ac a ddaeth yn ôl fel sicrwydd cyfyngedig (tudalen 58 a 59 o'r pecyn sy'n rhoi adroddiad/diweddariad manwl). Y 3ydd maes lle rydym wedi cael archwiliad terfynol ydy ynghylch diogelwch rhwydwaith lle rydym wedi cael sicrwydd rhesymol. Un adroddiad ar ei gyfnod drafft a phum adroddiad pellach sy'n ddyledus.

Mae Nodiadau Briffio Cleientiaid a rhybuddion twyll yn parhau i symud ymlaen.

Sicrwydd cyfyngedig asedau sefydlog TGCh – diweddariad o ran argymhellion

Chwe argymhelliad – wedi'u hamlinellu ar dudalen 58 a 59. Drwy'r pennaeth seilwaith TGCh, mae'r argymhellion hynny wedi symud ymlaen gyda CGI. Mae argymhellion yn amlygu problemau ynghylch bylchau yn ein cofrestr asedau a diffyg cofnodion hollol gadarn ynghylch ein cofrestr asedau sefydlog yn hytrach nag asedau coll. Er nad ydy'r asedau ar goll, ni chawsant eu cofnodi o fis Mawrth 2020 pan aeth gweithwyr a'u heitemau i ffwrdd i weithio o'r cartref. Roedd hyn yn golygu pan wnaeth TIAA gymryd sampl i ddilysu'r offer cyfrifiadurol i'r gofrestr asedau TG, nid oeddent yn gwybod lle i chwilio amdano – sy'n rhoi'r argraff ei fod ar goll (h.y. ar goll, wedi'i ddwyn, neu wedi torri ac wedi'i daflu). Pan edrychodd TG am yr eitemau "coll" hyn, fe wnaethant eu canfod i gyd, a diweddarwyd y cofnodion ar gyfer yr eitemau penodol hyn. Mae gwaith yn parhau i sicrhau fod y lleoliad/unigolyn ar gyfer bob ased TG yn cael eu cofnodi ar y gofrestr briodol.

Diweddarodd HC fod archwiliad pellach yn mynd i fod yn hwyrach yn y flwyddyn ar gyfer yr asedau sefydlog TGCh. Bydd felly'n pigo'r argymhellion ac yn sicrhau eu bod wedi'u gweithredu.

Holodd RB a oedd yn archwiliad sampl ac felly dim ond yr eitemau coll oedd ar goll – a ydy lleoliad yr asedau wedi'u cofnodi? A ydynt lle maent yn dweud y maent?

Cadarnhaodd HC ei fod yn seiliedig ar ymdriniaeth sampl – pan wnaethant gwblhau profi samplau, cawsant fylchau a arweiniodd wedyn at yr argymhelliad.

Amlygodd SP ei fod wedi'i gymryd fel dau faes, y sampl penodol gyda rhai materion penodol wedi'u nodi. Yna'r broses ehangach a'r angen i gael sicrwydd ehangach sy'n ddarn o waith parhaus sy'n gynwysedig o fewn y tîm TGCh ar hyn o bryd. Mae pwysigrwydd rheoli asedau sefydlog wedi'i bwysleisio i'r gwerthwyr posibl sy'n derbyn y gwaith o drosglwyddo'r model gweithredu targedau TGCh. Rydym hefyd wedi pwysleisio hyn gyda CGI. Cyflymodd y broses o asedau TGCh a leolwyd o dan

gyd-destun COVID a gynyddodd y risg er roedd prosesau yn dal mewn lle ac felly mae'r lefel o fylchau wedi dod yn dipyn o sioc.

307. ADOLYGIAD O ARGYMHELLION ODDI WRTH Y CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Dim argymhellion.

Amlygodd RB mai prin rydym ag unrhyw beth i drafod argymhellion o dan yr eitem agenda hon – a oes rheswm am hyn, gan y CA neu gan y grŵp hwn? Holodd RB pa fath o eitemau ddylai lifo i'r grŵp hwn o'r CA. Enghraifft: un o'r gweithrediadau o gyfarfod diwethaf y CA oedd yr adroddiad at wraidd y mater i risg – a allai hwnnw fod wedi llifo i'r eitem agenda hon?

Eglurodd SP fod yr ymdriniaeth i ddechrau yn edrych ar argymhellion neilltuol y CA a gweld pa un o'r rhai hynny oedd yn effeithio neu yn berthnasol i lywodraethu neu broblem llywodraethu – argymhellion sy'n berthnasol i lywodraethu.

Awgrymodd SP ein bod yn adlewyrchu ac yn hoelio ein hymdriniaeth ychydig yn fwy, yn enwedig yn dilyn yr enghraifft risg a grybwyllwyd RB – buasai hynny wedi bod o dan yr eitem hon.

Gweithrediad: Wrth osod agenda, mae Seb a Kate am roi adolygiad trwyadl o'r eitem agenda – trafod pa elfennau sy'n deilwng o drafodaeth a'u cylchredeg i'r aelodau mewn digon o amser ar gyfer trafodaeth iawn.

308. DIWEDDARIAD SICRWYDD (DRWY EITHRIAD)

Dim diweddariad

309. ADOLYGIAD CYNLLUN GWAITH YMLAEN

Gweithrediad: SR i drefnu cyfarfodydd 2023.

Amlygodd SP ddyddiadau ar y cyfrifon statudol sydd allan o sync – y cyfrifon statudol a naratif cyflwyniadol, bydd y Datganiad Blynyddol olaf ar gyfer ein cyfarfod nesaf

310. UNRHYW FATER ARALL

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:

Dydd Mercher 7 Medi 2022.